
# Datganiad Cwricwlwm

# Ysgol Pennant

# Curriculum Statement



# Datblygu’n gweledigaeth
# Developing our vision

Mae staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni wedi cydweithio i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm yn Ysgol Pennant.

Staff, governors, pupils and parents have worked together to develop a vision for the curriculum at Ysgol Pennant

# Gweledigaeth
# Vision

**Ysgol Gymraeg yw Ysgol Pennant.**

Yma byddwn yn ddysgwyr eiddgar. Gofalwn am ein gilydd yn ogystal â gofalu am ein cymuned a thu hwnt. Dangoswn barch at bawb a phopeth a gwnawn ein gorau glas.

**Ysgol Pennant is a Welsh language school.**

At Ysgol Pennant we will be eager learners. We care for each other as well as our community and beyond. We show respect to everyone and everything and we always give of our best.

**Iaith**

Cymraeg yw iaith yr ysgol a phlannwn ymdeimlad o falchder a chariad at yr iaith.

Anogwn ddatblygiad dwyieithrwydd a chwilfrydedd ieithyddol.

**Language**

Welsh is the language of the school and we foster a sense of pride and love for the language.

We encourage the development of bilingualism and linguistic curiosity.













**Y Dyniaethau**

Magwn ymdeimlad o gariad at ein Cynefin. Dechreuwn ddysgu am orffennol, presennol a dyfodol ein hardal cyn ymestyn ein diddordeb i'r byd ehangach.

**Humanities**

We develop a sense of love for our Cynefin. We begin to learn about the past, present and future of our area before extending our interest to the wider world.

**Iechyd a Lles**
Mae iechyd a lles cymuned yr Ysgol yn greiddiol i'n bywyd yma ym Mhennant. Er mwyn sicrhau llwyddiant  magwn unigolion hapus sy'n barod i wireddu eu dyheadau. Arfogwn ein dysgwyr i wynebu heriau bywyd, i gyfrannu yn fentrus ac yn werthfawr yn eu cymunedau a chynnal ei gilydd mewn cyfnodau heriol. Ein nod yw datblygu dinasyddion egwyddorol , gwybodus a fydd yn barod i wasanaethu eu cymuned, eu gwlad a'r byd.





**Health and wellbeing**
The health and wellbeing of the school community is at the core of our life here in Pennant. To ensure the success of pupils we aim to develop happy individuals who are ready to fulfil their aspirations. We equip our learners to face life's challenges, contribute boldly and valuably in their communities and sustain each other in challenging times. Our goal is to develop principled, informed citizens who will be willing to serve their community, their country and the world.

**Celfyddydau Mynegiannol**
Cyfoethogwn eu profiadau drwy ddangos ystod eang o gelfyddydau er mwyn iddynt werthfawrogi perfformiadau a gwaith eu hunain yn ogystal ag eraill. Ysbrydolwn ein disgyblion drwy roi'r cyfleoedd iddynt werthuso, arbrofi ac ymchwilio'n feirniadol. Trochwn ein disgyblion yng nghelfyddyd draddodiadol ein bro cyn ehangu eu gorwelion i werthfawrogi diwylliannau, pobl, lleoedd a chyfnodau eraill.



Canu plygain.MOV

**Expressive Arts**
We enrich their experiences by showing a wide range of arts so they can appreciate the performances and work of themselves as well as others. We inspire our pupils by giving them the opportunities to critically evaluate, experiment and research. We immerse our pupils in the traditional art of our local area before broadening their horizons to appreciate other cultures, people, places and times.


**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Ein nod yw meithrin chwilfrydedd a'r gallu i gwestiynu, dehongli a rhagfynegi. Pwysleisiwn bwysigrwydd Gwyddoniaeth a Thechnoleg ym mywydau pob un nawr ac yn y dyfodol. Dysgwn ein disgyblion i adnabod dibynadwyedd data er mwyn gwneud penderfyniadau doeth.



**Science and Technology**
We aim to foster curiosity and the ability to question, interpret and predict. We stress the importance of Science and Technology in the lives of all now and in the future. We teach our pupils to recognize the reliability of data in order to make wise decisions.

**Mathemateg**

Datblygwn sgiliau cynhwysfawr fydd yn sylfaen gadaran i ddatrys problemau bywyd go iawn. Bydd ein disgyblion yn barod i wynebu heriau'n ddiwyd gyda'r gallu i egluro eu canfyddiadau a chysyniadau.



**Mathematics**

We develop comprehensive skills that will be the foundation to solve real life problems. Our pupils will be diligently prepared to face challenges with the ability to explain their findings and concepts.

# Pedwar Diben

# The Four Purposes

**Mae cwricwlwm yr ysgol yn sicrhau bod ein disgyblion yn datblygu rhinweddau'r pedwar diben wrth ddod yn**

- Ddysgwyr Uchelgeisiol, Galluog
- Gyfranwyr Mentrus, Creadigol
- Dinasyddion Egwyddorol, Gwybodus
- Unigolion Iach, Hyderus.

**The school curriculum ensures that our pupils develop the qualities of the four purposes in becoming**

- Ambitious, Capable Learners;
- Enterprising, Creative Contributors
- Principled, Informed Citizens
- Healthy, Confident Individuals.

## Y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad

Darparwn gyfleoedd a phrofiadau dysgu gwerthfawr fydd yn datblygu cysyniadau, yr wybodaeth a'r sgiliau allweddwol sydd yn cael eu disgrifio yn yn y Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig. Byddwn yn gwneud hyn trwy chwe maes dysgu a phrofiad sef:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Dyniaethau
- Mathemateg a Rhifedd
- Iechyd a Lles

## The Six Areas of Learning and Experience

We provide valuable learning opportunities and experiences that will develop concepts, the key knowledge and skills described in the Statements of What Matters. We will do this through six areas of learning and experience namely:

- Languages, Literacy and Communication
- Expressive Arts
- Science and Technology
- Humanities
- Mathematics and Numeracy
- Health and Wellbeing

## Cwricwlwm Eang

- Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a chytbwys gan sicrhau fod dysgwyr yn gwneud cysylltiadau ystyrlon ar draws y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i feithrin cysylltiadau ar draws eu dysgu a chyfuno gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau.

## Broad Curriculum

- The school's curriculum is broad and balanced ensuring that learners make meaningful connections across the six Areas of Learning and Experience. This enables learners to build connections across their learning and combine different experiences, knowledge and skills.

## Dysgu ac Addysgu

Defnyddiwn arferion addysgeg effeithiol er mwyn helpu i wella dysgu ac addysgu a darparu sylfaen gadarn ar gyfer arloesi.

## Teaching and Learning

We use effective pedagogical practices to help improve learning and teaching and provide a solid foundation for innovation.

# Asesu


Mae asesu yn rhan annatod o ddysgu ac addysgu. Gydag arweiniad yr athrawon a’r staff anogwn ein disgyblion i adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Rydym yn adnabod y camau bydd ein dysgwyr yn cymryd wrth ddatblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth.

Bydd cynnydd disgyblion yn cael ei ddiweddaru’n dymhorol gyda rhieni mewn proffil electroneg ar Hwb. Bydd yn cynnwys camau cynnydd y disgybl a thargedau ar gyfer camau nesaf eu dysgu.

# Assessment

Assessment is an integral part of learning and teaching. With the guidance of the teachers and staff we encourage our pupils to identify the next steps in their learning. We recognize the steps our learners will take in developing their skills and knowledge.

Pupil progress path will be shared with parents and updated termly. The profile will include improvements made by the pupil as well as their next targets.



# Addysg bersonol a chymdeithsol

- Mae Ysgol Pennant yn helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch a meithrin empathi.  Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn rhan gorfodol o Gwricwlwm i Gymru. Nid oes gan rhieni yr hawl i ofyn i blentyn gael ei eithrio o’r gwersi hyn.

# Personal and social education

- Ysgol Pennant helps learners form and maintain a range of relationships based on trust and mutual respect to develop emotional wellbeing, resilience and build empathy.  Religion, Values and Ethics are a compulsory part of Curriculum for Wales.  Parents do not have the right  to ask for a child to be exempt from these lessons.

# Adolygu
# Review

Byddwn yn adolygu'r cwricwlwm yn gyson er mwyn ymateb i ymchwil proffesiynol, anghenion dysgwyr ac anghenion cymdeithasol. Bydd yr adolygiadau'n cael eu cymeradwyo gan y corff llywodraethu. Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm ac ei crynodeb yn dilyn unrhyw adolygiad. Bydd yr adolygiad nesaf ym mis Medi 2024.

We will constantly review the curriculum to respond to professional research, learner needs and social needs. The reviews will be approved by the governing body and any changes will be published following any review. The next review will be in September 2024.